

GWERS 136

CYFLWYNYDD: CENNARD DAVIES

NOD: Trafod dyddiadau / achlysuron pwysig - parhad.

Geirfa

llongyfarchiadau (ar) - congratulations (on)

priodas(au) f	-	marriage(s)	dyweddiad	-	engagement
llwyddiant	-	success	prawf gyrru	-	driving test
arholiad(au)	-	an examination	genedigaeth f	-	a birth
efaill	-	twin	plentyn	-	a child
efeilliaid	-	twins	plant	-	children
pasio	-	to pass	llwyddo	-	to succeed
disgwyl	-	to expect	newydd gael	-	just had
ohonoch chi	-	of you	ohonon ni	-	of us
ohonyn nhw	-	of them			
beichiog	-	pregnant			
cyntaf	-	first	ail	-	second
trydydd / trydedd-	-	third	pedwerydd / pedwaredd	-	fourth

RHAN 1

1. llongyfarchiadau - congratulations

Llongyfarchiadau **ar lwyddo yn eich arholiadau.**

- Congratulations **on succeeding in your examinations.**

Llongyfarchiadau **ar eich llwyddiant.**

- Congratulations **on your success.**

Llongyfarchiadau **ar ennill y Loteri.**

- Congratulations **on winning the Lottery.**

Llongyfarchiadau **ar eich priodas arian.**

- Congratulations **on your silver wedding.**

Llongyfarchiadau **ar enedigaeth eich plentyn / mab / merch.**
- Congratulations **on the birth of your child /son / daughter.**

Llongyfarchiadau **i chi.**
- Congratulations **to you.**

2. The personal forms of 'o' are as follows

ohono(f) i	-	of me	ohonon ni	-	of us
ohonot ti	-	of you	ohonoch chi	-	of you
ohono fe	-	of him	ohonyn nhw	-	of them
ohoni hi	-	of her			

i'r ddau ohonoch chi - to the two (both) of you
i'r ddau ohonyn nhw - to the two (both) of them

Llongyfarchiadau **i'r ddau ohonoch chi** ar eich dyweddiad.
- Congratulations **to (the two) both of you** on your engagement.

Llongyfarchiadau **i'r ddau ohonyn nhw** ar basio eu prawf gyrru.
- Congratulations **to (the two) both of them** on passing their driving test.

RHAN 2

1. Mae hi'n feichiog.
- She is pregnant.

Mae hi'n disgwyl plentyn mewn tri mis.
- She is expecting a child in three months.

Mae hi'n disgwyl efeilliaid.
- She is expecting twins.

2. 'Ail' always precedes the noun and causes Soft Mutation.

yr **ail** blentyn - the **second** child

Remember to add 'h' when 'ei' (her) precedes a word beginning with a vowel

ei hail blentyn

Mae hi'n disgwyl ei hail blentyn.
- She is expecting her second child.

3. **newydd** - **just**

When used **immediately** in front of a verb - **instead of 'wedi'** - it conveys **has/have just**

Mae hi **wedi** cael - She **has** had
Mae hi **newydd** gael - She **has just** had

Mae hi **newydd gael** ei thrydedd ferch.
- She has **just had** her third daughter.

Mae hi **newydd ddathlu** ei phen-blwydd yn gant oed.
- She has **just celebrated** her hundredth birthday.

Notice that '**newydd**' causes a Soft Mutation

Maen nhw newydd fynd
- They have just gone.

4. **'Trydedd'** and **'pedwaredd'** must be used with feminine nouns

y **drydedd** ferch
y **bedwaredd** ferch

Remember that both the ordinal and the noun undergo a Soft Mutation after '**y**'

Bethan ydy'r **drydedd** ferch.
- Bethan is the third daughter.